# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.01 – 09.55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_15_07_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

## 2.1P-04-569 Rhowch y Gorau i Gynnal y Profion Cenedlaethol ar gyfer Plant Ysgolion Cynradd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## 2.2P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

## 2.3P-04-571 Trin Anemia Dinistriol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## 2.4P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## 2.5P-04-573 Galwad ar Lywodraeth Cymru i Ymchwilio i'r System Lesddaliadau Preswyl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol i geisio eu barn:

- Y Gweinidog Tai ac Adfywio a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghylch sawl un o awdurdodau lleol Cymru sydd yn yr un sefyllfa ag Abertawe.

## 2.6P-04-574 Gwasanaethau Bws ym Mhorth Tywyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

## 2.7P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn am y ddeiseb; ac at
- y deisebwyr i'w hysbysu am amserlen y Bil Cynllunio (Cymru).

### 2.8 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Comisiynydd Plant Cymru, a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

i geisio eu barn am y ddeiseb.

### 2.9 P-04-577 Adfer Cyllid i'r Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

### 2.10 P-04-578 Gwaith Gostegu Sŵn ar yr M4, i'r Gorllewin o Gyffordd 32

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Prif Weinidog am ei ymateb i sylwadau'r deisebwyr.

### 3.2 P-04-548 Ailgyflwyno dosbarthiadau Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Addysg Uwch Cymru i weld a fyddai modd iddo gefnogi darpariaeth yn Rennes.

### 3.3 P-04-480 Mynd i'r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ystyried trefnu sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r deisebydd, yn dibynnu ar yr ymateb gan y Gweinidog ynghylch P-04-529 Ombwdsmon Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer Cymru.

### 3.4P-04-529 Ombwdsmon Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i geisio barn y Gweinidog am ohebiaeth y deisebwyr. Yn dilyn ymateb y Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried trefnu sesiwn dystiolaeth lafar gyda deisebwyr P-04-480 Mynd i’r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat.

### 3.5P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i holi am farn y Gweinidog am ohebiaeth y deisebydd.

### 3.6P-04-399 Arferion Lladd Anifeiliaid

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog unwaith y bydd adroddiad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm i Lywodraeth Cymru yn dod i law ac wedi ei ystyried.

### 3.7P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog unwaith y bydd adroddiad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm i Lywodraeth Cymru yn dod i law ac wedi ei ystyried.

### 3.8P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog newydd am ei ymateb i sylwadau pellach y deisebwyr.

### 3.9Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am y cynnydd o ran penodi olynydd i Dr Andrew Goodall fel Cadeirydd Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru ac am y cynnydd o ran y materion eraill a nodwyd gan y deisebwyr; ac

- yn gofyn am ymatebion gan y Byrddau Iechyd nad ydynt wedi ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor.

### 3.10 P-04-545 Gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ddangos ymateb y bwrdd iechyd lleol i'r Gweinidog, yn dilyn ei gais am hynny (gan gynnwys y wybodaeth am y cynllun rhithwir ar gyfer cleifion mewnol), a

- cheisio barn y deisebwyr am yr ymatebion a gafwyd.

### 3.11 P-04-543 Dim cynnydd mewn ffioedd dysgu prifysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad adolygiad Syr Ian Diamond; a

- gofyn i'r Tîm Clercio geisio sefydlu cyswllt i weithredu fel prif ddeisebydd ac wrth wneud hynny gofyn am eu barn am ymateb y Gweinidog.

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a mynegodd rhywfaint o bryder ynghylch rhai datganiadau yn llythyr y deisebwr.  Cytunodd y Pwyllgor i:

- **aros am ymateb llawn y deisebydd ac i ystyried yr holl bapurau mewn cyfarfod yn y dyfodol;**

- **ceisio barn Cymorth i Ferched Cymru ar ohebiaeth y deisebydd; ac**

- **yng ngoleuni'r ymatebion, gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.**

Cyn cau'r cyfarfod, atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 23 Medi 2014.

### 3.12 P-04-540 Stopio rhagfarn ar sail rhyw mewn cam-drin domestig

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.